# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 14 Hydref 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

## (291)

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3461

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd yr eitem am 15.00

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei benderfyniad i ddiswyddo cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan Ewrop ar gyfer 2014-2020?

## 3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru - Tlodi ac Anghydraddoldeb

Dechreuodd yr eitem am 15.07

**NDM5842 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Dlodi yng Nghymru: tlodi ac anghydraddoldeb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.55

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5832**

**Mick Antoniw (Pontypridd) R**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ymfalchïo yn y berthynas dda sydd wedi'i sefydlu yng Nghymru rhwng cyflogwyr, undebau llafur a gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; a

2. Yn credu:

a) bod Bil Undebau Llafur Llywodraeth y DU yn ymosodiad diangen ar hawliau democrataidd pobl sy'n gweithio ac y bydd yn tanseilio'r cysylltiadau diwydiannol da ac adeiladol sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru ers 1999;

b) bod peryg y bydd y Bil yn mynd yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a chonfensiynau 87, 98 a 151 y Sefydliad Llafur Rhyngwladol; a

c) bod y Bil yn ymyrryd â meysydd y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt ac na ddylid ei gymhwyso i Gymru heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 11 | 51 |

**Derbyniwyd y Cynnig.**

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.43

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig a’r Gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5843 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth digonol i ddiwallu anghenion penodol cymunedau gwledig Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 40 | 51 |

**Gwrthodwyd y Cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod rownd arall o fanciau wedi'u cau yng nghefn gwlad Cymru yn ddiweddar.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd Gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal cyfarfod brys gyda banciau manwerthu mawr i annog cefnogaeth ar gyfer model bancio cymunedol a sicrhau presenoldeb bancio lleol cynaliadwy mewn cymunedau gwledig.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cymru i dalu rhan sylweddol o'r taliad sylfaenol i gymaint o ffermwyr â phosibl ar y cyfle cyntaf o fewn cyfnod talu'r Cynllun Taliad Sylfaenol.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd Gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gynllun o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig sy'n cynnig cyllid mwy hygyrch ar raddfa fach i wella gwydnwch ac effeithlonrwydd ffermydd Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddileu'r rheol chwe diwrnod ar wahardd symud yn gynnar.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio**

**NDM5843 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth digonol i ddiwallu anghenion penodol cymunedau gwledig Cymru.

2. Yn gresynu at y ffaith bod rownd arall o fanciau wedi'u cau yng nghefn gwlad Cymru yn ddiweddar.

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i dalu rhan sylweddol o'r taliad sylfaenol i gymaint o ffermwyr â phosibl ar y cyfle cyntaf o fewn cyfnod talu'r Cynllun Taliad Sylfaenol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd y Cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.38

## 7 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.42

**NDM5844 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Diogelu cleifion yn Sir Benfro - pam mae angen gwasanaethau hanfodol yn Ysbyty Llwynhelyg.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.11

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015**